Y Comisiwn Etholiadol

Papur Arbenigol

# Rhannu gwariant mewn refferendwm

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm sy'n gyfarwydd â'r rheolau ar wariant, ac sydd eisiau mwy o fanylion ar sut i rannu costau.

## Termau ac ymadroddion rydym yn eu defnyddio

Defnyddiwn ‘rhaid’ pan ydym yn cyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Defnyddiwn ‘dylai’ ar gyfer eitemau a ystyriwn sy’n isafswm ar gyfer arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os ydych chi, fel arfer byddwch chi'n gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hagwedd tuag at orfodi

Os nad ydych chi'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol efallai byddwch chi neu eich mudiad yn agored i sancsiynau sifil neu droseddol. Gellwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch agwedd y Comisiwn tuag at orfodi ar

http://www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

# Rhannu gwariant

## Mae'r ddogfen hon ar gyfer:

Ymgyrchwyr refferendwm sy'n destun i reolaethau gwariant.

## Mae'r ddogfen yn ymdrin â:

- Rheolau sylfaenol ynglŷn â rhannu gwariant
- Yr egwyddor arweiniol
- Yr egwyddor ar waith

## Dogfennau cysylltiedig:

Referendum guidance

2

# Crynodeb

O dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), rheolir a rheoleiddir gwariant ymgyrch mewn refferenda gennym ni, y Comisiwn Etholiadol.

Rhaid i ymgyrchwyr gydymffurfio â'r rheolau ar wariant.

Cyn darllen y papur arbenigol hwn, dylech fod â dealltwriaeth gadarn o'r rheolau allweddol.

Os nad oes gennych, dylech ddarllen ein dogfennau cysylltiedig cyn darllen y canllaw hwn.

# Cyflwyniad

O dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) mae cyfyngiadau ar faint gaiff ymgyrchwyr cofrestredig ei wario ar ymgyrchu mewn refferendwm.

Rhaid i wariant gael ei gofnodi'n gywir a'i adrodd i ni, Y Comisiwn Etholiadol.

Efallai y bydd angen i chi rannu costau rhai eitemau o wariant, fel y gellwch gofnodi ac adrodd ar y gwerth a wariwyd ar eich ymgyrch yn gywir.

## Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn

Dylech fod â dealltwriaeth  gadarn o egwyddorion gwariant refferendwm cyn darllen y canllaw hwn. Os nad ydych eisoes wedi gwneud, dylech ddarllen ein canllaw ar wariant ar ein gwefan.

Bydd y ddogfen ganllaw hon yn mynd â chi drwy'r egwyddor arweiniol o rannu gwariant, ac mae'n rhoi enghreifftiau i chi o sut i'w defnyddio.

Os ydych yn ansicr ynglŷn â sefyllfa neilltuol o wariant yr ydych yn rhan ohoni, os gwelwch yn dda ffoniwch ni am gyngor.

4

# Y rheolau sylfaenol a'r egwyddor arweiniol

Bydd y tudalennau canlynol yn mynd â chi drwy'r rheolau sylfaenol a'r egwyddor arweiniol y mae'n rhaid i chi eu dilyn.

# Beth yw gwariant refferendwm?

Gwariant refferendwm yw arian sy'n cael ei wario ar weithgareddau ymgyrchu penodol yn ystod cyfnod a reolir (cyfnod y refferendwm).

Mae hefyd yn cynnwys:

- Eitemau neu wasanaethau a brynwyd cyn cychwyn y cyfnod y refferendwm ond a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod.
- Eitemau neu wasanaethau a roddwyd i chi am ddim neu ar ddisgownt an-fasnachol.

Rhaid i wariant refferendwm gael ei gofnodi a'i adrodd yn gywir i ni, y Comisiwn Etholiadol.

Gellwch ddod o hyd i fwy ar yr hyn sy'n cyfrif fel gwariant refferendwm yn ein canllaw ar www.electoralcommission.org.uk/guidance

# Pryd mae angen i chi rannu gwariant?

Efallai y bydd angen i chi rannu gwariant;

- Rhwng eitemau a ddefnyddiwyd cyn cychwyn y cyfnod y refferendwm ac eitemau a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod.
- Rhwng gwahanol fathau o ymgyrchu
- Rhwng gweithgareddau sy'n cyfrif fel gwariant refferendwm a rhai nad ydynt yn cyfrif fel gwariant refferendwm
- Os ydych hefyd yn ymgyrchu mewn etholiad yn ogystal â'r refferendwm, efallai y bydd angen i chi rannu gwariant rhwng eich ymgyrch refferendwm a'ch ymgyrch etholiad.

## Costau ychwanegol

Mae costau ychwanegol yn rhai a gysylltir ag ymgyrchu yn y refferendwm sy'n ychwanegol at eich costau rhedeg arferol.

# 6

Efallai y bydd angen i chi rannu biliau rhwng eich gweithgareddau arferol a'ch ymgyrch refferendwm.

Er enghraifft, efallai y bydd gennych orbenion ychwanegol oherwydd cynnydd mewn costau ffôn, y gellwch eu priodoli'n uniongyrchol i'ch gweithgareddau ymgyrchu.

# Yr egwyddor arweiniol

## Beth yw'r egwyddor arweiniol?

Yr egwyddor arweiniol yw y dylech, ym mhob achos, wneud asesiad gonest, wedi ei seilio ar y ffeithiau, o'r gyfran o'r gost y gellir ei phriodoli'n deg i'ch gwariant refferendwm.

Dylech ddefnyddio'r egwyddor arweiniol ar gyfer bob sefyllfa ble mae angen i chi rannu gwariant.

Bydd hyn yn ddidrafferth gyda llawer o eitemau. Fodd bynnag, i rai bydd yn fwy anodd. Mae'r enghreifftiau yn yr adran nesaf yn eich helpu i ddeall sut y dylech ymdrin â'ch asesiad.

8

# Yr egwyddor ar waith

Bydd y tudalennau canlynol yn mynd â chi drwy'r egwyddor arweiniol ar waith, gan ddefnyddio mathau cyffredin o wariant.

# Defnyddio'r egwyddor arweiniol

- Mae'r enghreifftiau isod yn amlinellu sut y dylech ddilyn yr egwyddor arweiniol mewn amgylchiadau neilltuol.
- Eu bwriad yw i'ch helpu ystyried sut y gellwch ddefnyddio'r egwyddor yn eich gwariant eich hun. Nid ydynt yn gynhwysfawr. Ym mhob achos, rhaid i chi ystyried y ffeithiau neilltuol er mwyn cyrraedd asesiad gonest o sut i rannu'r gwariant yn deg.
- Os nad ydych yn siŵr sut i rannu costau penodol, dylech ein ffonio neu'n e-bostio am gyngor. Rydym yn hapus i siarad drwy'r ffordd y bwriadwch asesu'r costau mewn achosion penodol.
- Dylech gadw cofnod o'r ffordd y gwnaethoch eich asesiad rhag ofn y ceir ymholiadau diweddarach.

# Eitemau a ddefnyddiwyd cyn ac yn ystod y cyfnod y refferendwm

Dim ond eitemau a ddefnyddiwyd yn ystod cyfnod y refferendwm sy'n cyfrif tuag at eich cyfyngiad gwariant.

Felly, efallai y bydd angen i chi rannu cost eitemau a ddefnyddir cyn ac yn ystod cyfnod y refferendwm.

## Enghraifft: taflenni

Rydych yn argraffu rhai taflenni. Danfonir chwarter ohonynt (25%) cyn cychwyn cyfnod y refferendwm a'r tri-chwarter arall (75%) yn ystod cyfnod y refferendwm.

Dim ond y taflenni a ddanfonir yn ystod y cyfnod sy'n cyfrif fel gwariant refferendwm.

Felly, i ganfod y gost y mae angen i chi ei chofnodi, dylech rannu cyfanswm cost y taflenni 25/75.

## Enghraifft: gwaith dylunio

Rydych yn comisiynu gwaith dylunio, fel logo'r ymgyrch, y penderfynwch ei ddefnyddio'n barhaus o'r amser cyn cychwyn cyfnod y refferendwm tan y diwrnod pleidleisio. Rydych yn ei ddefnyddio ar eich gwefan, yr holl gyfryngau cymdeithasol ac ar eich holl ddeunydd ymgyrchu.

Dylech rannu cost y dyluniad yn wastad ar draws y cyfnod cyfan yr ydych yn ei ddefnyddio yn y ffordd yma

Os gostiodd y gwaith £12,000, a'ch bod yn ei ddefnyddio dros 6 mis, y gost fesul mis yw £2000.

Os yw cyfnod y refferendwm yn ymwneud â'r 3 mis olaf yna:

3 mis x £2000 = £6000 i'w gofnodi fel gwariant refferendwm

# Gwariant refferendwm a gweithgareddau eraill

Isod gweler rhai enghreifftiau ble y bydd angen rhannu costau rhwng gwariant refferendwm a gweithgareddau eraill.

Efallai y byddwch yn cael y rhain yn ddefnyddiol os ydych yn ymgyrchu ar sawl mater ac nid ar y cwestiwn refferendwm yn unig. Neu os ydych yn blaid wleidyddol, efallai y byddwch yn ymdrin â materion etholiad hefyd, neu gall deunydd refferendwm ffurfio rhan o bost cyffredinol at aelodau.

Nid yw postio deunydd i aelodau plaid wleidyddol yn cyfrif fel rhan o wariant ymgyrch etholiad. Fodd bynnag, mae postio deunydd i aelodau sy'n hyrwyddo canlyniad refferendwm yn cyfrif tuag at wariant refferendwm.

## Deunydd sy'n ymdrin â'r refferendwm a materion eraill

Os ydych yn cynhyrchu deunydd (fel taflen wedi'i hargraffu) sy'n cynnwys gwybodaeth ar faterion eraill yn ogystal â'r refferendwm, bydd angen i chi rannu cost y deunydd.

### Er enghraifft:

Os mai taflen yw'r eitem, dylech seilio eich asesiad ar y gyfran o'r daflen sy'n ymdrin â'r refferendwm.

Rhaid i chi gynnwys yr holl gostau cysylltiedig, fel dylunio, argraffu a dosbarthu.

## Gweithgareddau yn gysylltiedig â'r refferendwm a materion eraill

Os yw eich ymgyrch refferendwm yn rhedeg yn gyfochrog â gweithgareddau eraill, bydd angen i chi rannu'r costau perthnasol rhyngddynt.

Gallai hyn gynnwys:

- Biliau ffôn
- Cynnal a hyrwyddo'r wefan
- Amser staff (ble nad ydych yn cyflogi'r aelod staff yn uniongyrchol)

Nid yw staff sydd yn uniongyrchol gyflogedig gennych yn cyfrif fel gwariant refferendwm.

### Enghraifft: biliau ffôn

Rydych yn defnyddio eich llinellau ffôn presennol i redeg eich gweithgaredd adnabod pleidleiswyr ar gyfer y refferendwm. Bydd angen i chi gyfrifo faint o'r bil a ddylai gyfrif tuag at eich gwariant refferendwm.

Yn gyntaf, dylech adnabod pa alwadau mae angen i chi eu cyfrif. I wneud hyn, dylech gael bil fesul eitem gan eich darparwr - efallai y bydd angen i chi ofyn am hyn ymlaen llaw os nad ydych yn cael un fel arfer.

Nesaf, dylech ddynodi rhai o'r costau rhentu llinell i'w cyfrif fel gwariant refferendwm. Dylech weithio allan y cyfanswm o alwadau a wnaed sy'n gysylltiedig â gwariant refferendwm. Yna dylech ddefnyddio'r un gyfran i'r rhent llinell.

Felly, er enghraifft:

Mae eich bil am alwadau yn £300. Rydych yn gweithio allan fod £200 yn gysylltiedig â gwaith adnabod pleidleiswyr.

Mae eich rhent llinell ar gyfer yr un cyfnod yn £30.

Mae £200 yn ddwy ran o dair o'ch bil cyfan am alwadau o £300. Felly dylech gyfrif dwy ran o dair o'ch rhent llinell tuag at eich gwariant refferendwm. Mae hynny'n £20.

Rydych yn cofnodi cyfanswm o £220 fel gwariant refferendwm.

### Enghraifft: costau staff

Mae aelod o staff yn cael eu secondio i weithio i chi gan eu cyflogwr. Maent yn treulio rhan o'u hamser yn ysgrifennu taflenni refferendwm, a rhan ar waith nad yw a wnelo â'r ymgyrch.

I ddod o hyd i'r swm y dylech ei gofnodi fel gwariant refferendwm, bydd angen i chi luosi'r amser a dreuliwyd yn ysgrifennu taflenni yn ôl eu graddfa fesul awr.

I ddod o hyd i'r raddfa hon, byddwch angen i'w cyflogwr gadarnhau eu cyflog blynyddol, cyn tynnu'r cyfraniadau pensiwn a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Bydd y cyfrifiad canlynol yna'n rhoi i chi'r raddfa fesul awr:

| | | |
|---|---|---|
| Cyflog blynyddol / 52 | = | cyflog wythnosol |
| Cyflog wythnosol / oriau contract | = | graddfa fesul awr |

I'ch helpu i gynllunio eich gwariant, dylech chi a'r aelod staff gytuno ar amcangyfrif rhesymol o'r amser maent yn debygol o'i dreulio ar waith refferendwm, ac y byddant yn eich diweddaru os ydynt yn trafod amser sylweddol fwy arno.

Dylech hefyd gadw cofnodion rheolaidd – er enghraifft, yn wythnosol neu'n bythefnosol – o'r amser gwirioneddol a dreuliwyd gan yr aelod staff ar waith refferendwm. Bydd hyn yn eich helpu i gael y cyfanswm cywir ar ddiwedd cyfnod y refferendwm.

# 14

## Sut y gallwn ni helpu

Gellwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn y dogfennau canllaw rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon, neu gellwch weld ein hamrediad cyfan o ganllawiau ac adnoddau cyfredol ar ein gwefan.

Os yw'n haws, gellwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu ar y cyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 020 7271 0616

  pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0131 225 0200
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 029 2034 6800
  infowales@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 028 9089 4020
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ymwelwch â ni ar www.electoralcommission.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau – e-bostiwch ni ar: pef@electoralcommission.org.uk

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

Am wybodaeth ar gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall neu mewn fersiwn print-mawr neu Braille cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol os gwelwch yn dda:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uka